**Leighton Andrews AC / AM**
**Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Minister for Public Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LF-LA-0195-15

Christine Chapman AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd,
CF99 1NA

4 Mawrth 2015

Annwyl Christine,

Tra oeddwn yn bresennol mewn cyfarfod o'r Pwyllgor ar 5 Chwefror 2015, lle bûm yn rhoi tystiolaeth ynghylch Bil Llywodraeth Leol (Cymru) 2015, cytunais i ddarparu'r wybodaeth ychwanegol ganlynol:

- amserlen fras ar gyfer y cylch o etholiadau a gynigir dan y Rhaglen Diwygio Llywodraeth Leol; a

- nodyn ynghylch pam na ddisgwylir i adolygiadau o gymunedau gael eu cwblhau cyn i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gynnal ei adolygiadau ef o drefniadau etholiadol ar gyfer y Prif Ardaloedd newydd arfaethedig.

Yn Atodiad 1 rwyf wedi darparu'r amserlen arfaethedig ar gyfer etholiadau Awdurdodau Lleol, sy'n cynnwys manylion etholiadau llywodraethol ehangach.

Mae Atodiad 2 yn darparu gwybodaeth am y broses arfaethedig ar gyfer adolygiadau o drefniadau etholiadol, sydd i'w cynnal gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yng nghyswllt y Prif Ardaloedd newydd arfaethedig, a gwybodaeth am y dull o gynnal adolygiadau o gymunedau. Mae hefyd yn esbonio pam na ddisgwylir i adolygiadau o gymunedau ddigwydd cyn yr adolygiadau o drefniadau etholiadol ar gyfer y Prif Ardaloedd newydd arfaethedig.

Yn gywir,

**Leighton Andrews AC / AM**
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Minister for Public Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Leighton.Andrews@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

## Diwygio Llywodraeth Leol – Amserlen arfaethedig ar gyfer etholiadau

| | |
|---|---|
| **2015** | |
| **Mai** | ***Etholiad cyffredinol*** |
| Tachwedd | Bil Llywodraeth Leol (Cymru) 2015    Cydsyniad Brenhinol |
| **2016** | |
| Mawrth | Gwneud rheoliadau i sefydlu pwyllgorau pontio ar gyfer awdurdodau sy’n uno’n wirfoddol |
| **Mai** | ***Etholiadau’r Cynulliad Cenedlaethol / Etholiadau’r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu*** |
| Tymor yr hydref | Cyflwyno Bil Llywodraeth Leol (Cymru) 201 |
| **2017** | |
| onawr | Gwneud rheoliadau i sefydlu pwyllgorau pontio ar gyfer awdurdodau sy’n uno dan Fil 201 |
| 1 Ebrill | Awdurdodau sy’n uno’n wirfoddol    sefydlu awdurdodau cysgodol (sy’n cynnwys pob aelod o’r awdurdodau sy’n uno) |
| **Mai** | ***Etholiadau i’r awdurdodau sy’n parhau (tymor o 5 mlynedd) a’r awdurdodau sy’n uno dan Fil 2017 (tymor o 3 blynedd)*** |
| Tymor yr hydref | Bil Llywodraeth Leol (Cymru) 201      Cydsyniad Brenhinol |
| **2018** | |
| 1 Ebrill | Awdurdodau sy’n uno’n wirfoddol    diwrnod breinio ar gyfer awdurdodau newydd |
| **Mai** | ***Etholiadau i’r awdurdodau sy’n uno’n wirfoddol*** |
| **Mai** | ***Etholiadau Ewropeaidd*** |
| **2019** | |
| Mai | ***Etholiadau i’r awdurdodau cysgodol sy’n uno dan Fil 2017*** |
| **2020** | |
| 1 Ebrill | Awdurdodau sy’n uno dan Fil 201      diwrnod breinio |
| **Mai** | *Etholiad cyffredinol* |
| **2021** | |
| **Mai** | ***Etholiadau’r Cynulliad Cenedlaethol / Etholiadau’r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu*** |
| **2022** | |
| **Mai** | ***Etholiadau i bob awdurdod*** |

**Bil Llywodraeth Leol (Cymru)**

**Nodyn ynghylch (i) Y weithdrefn ar gyfer adolygiadau o drefniadau etholiadol ar gyfer y Prif Ardaloedd newydd arfaethedig, sydd i'w cynnal gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru; ac (ii) Adolygiadau o gymunedau**

## (i) Y dull o gynnal adolygiadau o drefniadau etholiadol ar gyfer y Prif Ardaloedd newydd arfaethedig

1. Mae'r weithdrefn y mae'n ofynnol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ( y Comisiwn ) ei dilyn er mwyn cynnal adolygiad cychwynnol o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Prif Ardal newydd arfaethedig wedi'i hegluro yn adrannau 1 i 22 Bil Llywodraeth Leol (Cymru) ( y Bil ) fel y'i cyflwynwyd.

2. Mae'r weithdrefn a nodir yn y Bil yn seiliedig, i'r graddau y bo'n briodol, ar y weithdrefn a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 201 ar gyfer dull y Comisiwn o gynnal adolygiadau o drefniadau etholiadol ar gyfer y 22 Prif Awdurdod Lleol cyfredol.

. Ni chaiff y Comisiwn gynnal adolygiad cychwynnol o drefniadau etholiadol Prif Ardal newydd arfaethedig ar ei liwt ei hun. Ni chaiff y Comisiwn ddechrau gweithio ar adolygiad cychwynnol nes y bydd wedi cael cyfarwyddyd gan einidogion Cymru i wneud hynny. Bydd Adran 1 , sy'n rhoi p er i einidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r Comisiwn, yn dod i rym drannoeth y diwrnod y bydd y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol. Rhaid i gyfarwyddyd sy'n mynnu bod y Comisiwn yn cynnal adolygiad cychwynnol o Brif Ardal newydd arfaethedig nodi'r dyddiad y mae'n rhaid i'r Comisiwn gyflwyno ei adroddiad a fydd yn cynnwys argymhellion terfynol ynghylch trefniadau etholiadol y Brif Ardal neu'r Prif Ardaloedd newydd arfaethedig a ddisgrifir yn y cyfarwyddyd.

4. Cyn cynnal adolygiad cychwynnol mae'n ofynnol i'r Comisiwn sicrhau bod ymgyngoreion gorfodol, ac unrhyw bersonau eraill sydd budd yn yr adolygiad, yn ymwybodol ohono ac o unrhyw gyfarwyddydau a roddwyd gan einidogion Cymru ynghylch yr adolygiad.

5. Dyma'r ymgyngoreion gorfodol ar gyfer adolygiad cychwynnol:

Cynghorau'r Awdurdodau Lleol sy'n uno y mae'r adolygiad yn ymdrin hwy;
nrhyw Gynghorau cymuned yn y Brif Ardal arfaethedig y mae'r adolygiad yn Cymdrin hi;
nrhyw bersonau eraill a bennir gan einidogion Cymru yn y cyfarwyddyd i gynnal yr adolygiad cychwynnol.

. Yn rhan o'r broses ragadolygu, rhaid i'r Comisiwn ymgynghori 'r ymgyngoreion gorfodol ynghylch y weithdrefn a'r fethodoleg y mae'n bwriadu eu dilyn, ac yn benodol ynghylch y modd y mae'n bwriadu pennu'r nifer briodol o gynghorwyr ar gyfer y Brif Ardal newydd arfaethedig.

. Yna, bydd y Comisiwn yn mynd ati i ddatblygu ei gynigion ar gyfer y trefniadau etholiadol. rth wneud hynny, rhaid i'r Comisiwn ymgynghori 'r ymgyngoreion

gorfodol ac unrhyw bersonau eraill y mae o'r farn eu bod yn briodol, a rhaid iddo gynnal yr ymchwiliadau y mae o'r farn eu bod yn briodol. Ar l gorffen y broses hon, rhaid i'r Comisiwn baratoi a chyhoeddi adroddiad sy'n cynnwys cynigion drafft er mwyn ymgynghori yn eu cylch. Rhaid i'r ymgynghoriad bara am gyfnod nad yw'n llai na chwe wythnos ac nad yw'n hwy na 12 wythnos.

. Rhaid i'r Comisiwn ystyried unrhyw sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Ar l ystyried yr holl sylwadau, rhaid i'r Comisiwn baratoi a chyhoeddi adroddiad terfynol sy'n cynnwys argymhellion ynghylch y trefniadau etholiadol, a'i gyflwyno i einidogion Cymru. Rhaid i'r adroddiad terfynol hefyd gynnwys manylion yr adolygiad a'r ymgynghoriad a gynhaliwyd a manylion unrhyw newidiadau i'r cynigion a wnaed, yng ngoleuni'r sylwadau a gafwyd, ac esboniad ynghylch pam y gwnaed y newidiadau hynny.

9. Bydd cyhoeddi'r adroddiad terfynol yn arwain at gyfnod ymgynghori pellach a fydd yn para chwe wythnos. Pan fydd y cyfnod hwnnw wedi dod i ben, caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i weithredu'r argymhellion fel y c nt eu nodi yn yr adroddiad neu gydag addasiadau. Cyn gwneud y rheoliadau, caiff Gweinidogion Cymru ofyn hefyd am wybodaeth bellach ynghylch argymhellion y Comisiwn.

**Adolygiadau o gymunedau**

10. Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 201 ( Deddf 201 ) yn rhoi dyletswydd ar Brif Gynghorau i adolygu ardaloedd eu cymunedau'n barhaus. Caiff y weithdrefn ar gyfer cynnal adolygiadau o gymunedau ei nodi yn Neddf 201 , ac ni chaiff ei diwygio gan y Bil.

11. Caiff Prif Gyngor gynnal adolygiadau o gymunedau, neu caiff y Prif Gyngor gytuno bod y Comisiwn yn cynnal yr adolygiadau o gymunedau ar ei ran. rth gynnal adolygiadau o gymunedau, mae'n ofynnol i Brif Gynghorau ddwyn yr adolygiadau i sylw ymgyngoreion gorfodol ac unrhyw bersonau eraill sydd budd yn yr adolygiadau, a rhaid iddynt gyflwyno adroddiad i'r Comisiwn bob 10 mlynedd ynghylch unrhyw weithgareddau sy'n ymwneud ag adolygiadau o gymunedau. Rhaid i Awdurdodau Lleol ymgynghori ynghylch cynigion drafft ac ystyried yr holl sylwadau cyn llunio cynigion terfynol. Caiff yr adroddiad terfynol a'r argymhellion eu cyflwyno i'r Comisiwn er mwyn iddo eu hystyried. Ar l cyfnod ymgynghori o chwe wythnos, caiff y Comisiwn wneud gorchymyn i weithredu'r argymhellion fel y c nt eu nodi yn yr adroddiad neu gydag addasiadau y cytunodd y Prif Gyngor nhw.

12. Dan Ddeddf 201 , mae'n ofynnol i'r Comisiwn baratoi rhaglen o adolygiadau etholiadol ar gyfer pob Prif Ardal gyfredol o leiaf unwaith bob 10 mlynedd, gan ddechrau ym mis Medi 201 . Rhaid i Brif Gyngor ystyried rhaglen 10 mlynedd y Comisiwn wrth benderfynu pryd i gynnal ei adolygiad o gymunedau.

1 . Mae rhaglen 10 mlynedd gyfredol y Comisiwn o adolygiadau etholiadol ar gyfer y Prif Awdurdodau Lleol cyfredol wedi'i gohirio nes y bydd llywodraeth leol wedi'i diwygio.

14. Ar hyn o bryd, mae’r Comisiwn yn ystyried adolygiadau o gymunedau dau Brif Gyngor (Sir y Fflint a Rhondda Cynon Taf) ac mae pedwar Prif Gyngor wedi cyrraedd gwahanol gamau yn y broses o gynnal adolygiadau o gymunedau (Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Sir Fynwy a Chastell-nedd Port Talbot).

15. Mae’n cymryd oddeutu dwy flynedd ar gyfartaledd i Brif Gynghorau gynnal adolygiad llawn o gymunedau. Mae’n cymryd chwe mis ar gyfartaledd i’r Comisiwn baratoi a gwneud gorchymyn, os yw’n cytuno ’r ffiniau a’r penderfyniadau a argymhellir gan y Cyngor.

**<u>Yr amserlen ar gyfer cynnal adolygiadau o drefniadau etholiadol ar gyfer y Prif Ardaloedd newydd arfaethedig dan y Bil</u>**

1 . Dan y trefniadau cyfredol, mae’r Comisiwn yn neilltuo o leiaf 1 mis i gwblhau ei gamau ar gyfer pob adolygiad o drefniadau etholiadol ar gyfer Prif Ardal. Dylai’r 1 mis hyn ganiat u digon o amser i ymchwilio, ymgysylltu rhanddeiliaid, ymgynghori ynghylch yr adroddiad drafft ac ystyried a phrosesu sylwadau. Rhagwelir y bydd yr un amserlen yn berthnasol i adolygiadau o’r Prif Ardaloedd newydd arfaethedig dan y Bil.

1 . Yn yr un modd, dan y trefniadau cyfredol, mae Gweinidogion Cymru yn gyffredinol yn caniat u tri mis rhwng y dyddiad y ceir adroddiad terfynol (gydag argymhellion) gan y Comisiwn a’r dyddiad y gwneir y gorchymyn ynghylch trefniadau etholiadol. Mae hynny’n cynnwys y cyfnod o chwe wythnos ar gyfer cyflwyno sylwadau (sy’n dechrau ar y dyddiad y daw’r argymhellion i law) a’r amser y mae ei angen i ddrafftio, prosesu a chymeradwyo’r gorchymyn angenrheidiol. Er bod diben ac effaith yr adolygiadau yr un fath, bydd adolygiadau o drefniadau etholiadol dan y Bil yn cael eu gweithredu drwy reoliadau yn hytrach na gorchymyn. Nid oes unrhyw oblygiadau ymarferol na gweithdrefnol i hyn; yn syml iawn, mae’n adlewyrchu’r dull cyfredol o ddarparu pwerau is-ddeddfwriaethol ym Miliau’r Cynulliad.

1 . Pan gaiff y rheoliadau ynghylch trefniadau etholiadol eu gwneud, swyddogion cofrestru etholiadol y Prif Awdurdodau Lleol dan sylw fydd yn gyfrifol am wneud y newidiadau gweinyddol angenrheidiol ar lefel leol er mwyn gweithredu’r trefniadau newydd. Yn ogystal, bydd angen i bleidiau gwleidyddol ddechrau gweithio ar eu gweithdrefnau dewis ymgeiswyr ar sail y trefniadau newydd. O’n profiad ni, mae angen i swyddogion cofrestru etholiadol a phleidiau gwleidyddol gael oddeutu mis i weithredu’r trefniadau newydd ar gyfer wardiau.

**<u>Ystyriaethau eraill</u>**

19. Pan fydd y Bil wedi’i basio, bydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i’r Comisiwn flaenoriaethu’r drefn y caiff y Prif Ardaloedd newydd arfaethedig eu hadolygu ynddi.

20. rth baratoi i adolygu’r Ardaloedd newydd arfaethedig, mae’r Comisiwn yn ystyried opsiynau o ran amserlen ond bydd yr amserlen derfynol yn dibynnu ar fap o’r awdurdodau unedig arfaethedig a chyfarwyddydau gan einidogion Cymru.

21. Nid yw’r amserlen arfaethedig yn y Bil yn caniat u i Brif Gynghorau sy’n uno gynnal adolygiadau o gymunedau cyn y cynhelir adolygiadau o drefniadau etholiadol gan y Comisiwn. Fodd bynnag, y bwriad polisi, fel y caiff ei nodi yn y Papur Gwyn Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol, yw bod angen i bob Awdurdod Lleol gynnal adolygiadau o gymunedau erbyn 2022.